No.

# CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 19 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams and M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd G. Bruce, I. Buckley, S.M. Hanks, W.A. Hennessy and Dr. I.J. Johnson.

## C178 CYHOEDDIAD -

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod Cabinet ac atgoffa pawb fod yn cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'r recordio dros y rhyngrwyd ac y byddai'r recordiad yn cael ei archifo er mwyn ei weld yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr droi'r botwm 'mud' ymlaen pan nad oeddent yn siarad i osgoi unrhyw sŵn cefndir pan fyddai eraill yn siarad, a phetai rhywun am siarad, a fuasent cystal â chodi llaw (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r cyfleuster 'codi llaw'.

Gofynnwyd i'r Aelodau sicrhau bod yr holl drafodaeth ar lafar ac nid trwy'r cyfleuster 'sgwrsio' er mwyn y recordio. Byddai modd defnyddio'r cyfleuster 'sgwrsio' i amlygu unrhyw broblemau technegol a/neu i dynnu sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## C179 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

## C180 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2022 a 5 Ionawr, 2023 fel cofnod cywir.

## C181 DATGANIADAU BUDDIANT –

| | |
|---|---|
| Cynghorydd L. Burnett | Yr oedd a wnelo'r diddordeb ag Eitem 12 ar yr Agenda - Cyngor Bro Morgannwg - Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig am 2023/2024. Dywedodd yr Arweinydd fod ganddi ddiddordeb personol yn |

| | |
|---|---|
| | y mater a allai fod yn rhagfarnol, gan fod aelod o'i theulu yn derbyn Teleofal, fel y cyfeirir ato yn Atodiad 7 i'r adroddiad. Yr oed ganddi ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion o'r fath. |
| Cynghorydd G. John | Yr oedd a wnelo'r diddordeb ag Eitem 12 ar yr Agenda - Cyngor Bro Morgannwg - Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig am 2023/2024. Dywedodd y Cynghorydd John fod ganddo ddiddordeb personol yn y mater a allai fod yn rhagfarnol, fel aelod trwy'i oes o Glwb Pêl-droed Llanilltud Fawr, ond fod ganddo ganiatâd gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar faterion o'r fath. |

**C182 STRATEGAETH TAI POBL HŶN DDRAFFT (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel ar 7 Rhagfyr 2022.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Craffu am eu sylwadau a dywedodd fod argymhellion y Pwyllgor yn ddilys ac y caent eu hystyried fel rhan o Strategaeth Tai Pobl Hŷn.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD – Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel a'u hystyried fel rhan o'r Strategaeth derfynol ar Dai Pobl Hŷn.

Rheswm dros benderfyniad

Gan gadw mewn cof gynnwys y cyfeirio a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C183 DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeirio o Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio y 12 Rhagfyr, 2022.

Dywedodd yr Arweinydd fod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi ei nodi i raddau helaeth gan y Pwyllgor ond cyfeiriodd at Benderfyniad (2) oedd yn galw am gytuno i ail-fframio'r risg o Ail-lunio risg i fod yn risg breuder ariannol ar y Gofrestr.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD –

(1) Cytuno i ail-fframio'r risg o Ail-lunio risg i fod yn risg bregusder ariannol ar y Gofrestr.

(2) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

Rheswm dros benderfyniadau

(1-2) Gan gadw mewn cof gynnwys y cyfeirio a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C184 ADRODDIAD CRAFFU CYNLLUN LLESIANT DRAFFT BGC (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeirio o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau o 14 Rhagfyr, 2022.

Diolchodd yr Arweinydd Aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau a'r drafodaeth yn y cyfarfod. Gofynnwyd a fyddai 'dogfen adfyfyrio' ar gael gan y BGC i werthuso'r Cynllun blaenorol (2017- 2022) a chytunodd yr Arweinydd i hyn er mwyn dysgu'n gyson o'r mathau hyn o fentrau.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD –

(1) Anfon adborth o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar y drafft o Gynllun Lles ymlaen at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC).

(2) Nodi sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan gadw mewn cof gynnwys y cyfeirio a thrafodaethau yn y cyfarfod.

**C185 RHAGLEN WAITH CHWARTEROL Y CABINET – HYDREF I RAGFYR 2022 A IONAWR I MAWRTH 2023 (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd dwyn i mewn yr Aelodau ac ymgynghori gyda hwy ar y cynnydd gyda Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet am y cyfnod Hydref i Ragfyr 2022 ac i gadarnhau'r Rhaglen Waith Chwarterol am Ionawr i Fawrth 2023.

Nododd yr Arweinydd fod Prosiect Sero wedi bod gerbron y Pwyllgor Craffu ac y deuai yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried petai gan y Pwyllgorau oedd yn cyfarfod yr wythnos honno unrhyw sylwadau i'r Cabinet eu hystyried. Yr oedd yr adroddiad ar y Strategaeth Pobl a'r Dogfennau Ategol i fod i'w hystyried ym mis Ionawr ond fe'u daliwyd yn ôl tan gylch cyfarfodydd Chwefror i'w hystyried.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.
Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cytuno ar y cyfoesiadau i Raglen Waith Chwarterol y Cabinet am fis Hydref i Ragfyr 2022 a atodwyd i Atodiad 1.

(2) Cadarnhau Rhaglen Waith Chwarterol y Cabinet o Ionawr hyd Fawrth 2023 a atodwyd i Atodiad 2.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Cadw golwg ar gynnydd.

(2) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith am Ionawr hyd Fawrth 2023.

**C186 DEFNYDDIO PWERAU ARGYFWNG Y PRIF WEITHREDWR (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd hysbysu'r Cabinet o arfer Pwerau Brys gan y Prif Weithredwr ers yr adroddiad diwethaf ar Dachwedd 17, 2022.

Tynnodd yr Arweinydd sylw'r Aelodau at y manylyn am y Pwerau Brys a restrwyd ym Mharagraff 2.1 yr adroddiad. Cyfeiriodd at y penderfyniad a gymerwyd dan Baragraff 2.1 (a) am Ysgol Eagleswell yn Llanilltud Fawr gan y bu peth trafodaeth yn lleol. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y safle wedi ei neilltuo yn y Cynllun Datblygu Lleol fel safle ar gyfer tai ond nad oedd yn barod i gael ei ddefnyddio at y diben hwnnw eto. Yr oedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Bwrdd Iechyd Lleol o ran eu hasesiad strategol o ddarpariaeth gofal iechyd yng Ngorllewin y Fro hefyd. Daethai'r Cynghorwyr John a Williams gyda'r Arweinydd i gyfarfod Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol i drafod y pwnc, a chawsant sicrwydd y byddid yn ystyried y safle fel rhan o gynllunio darpariaeth iechyd yn y dyfodol yng Ngorllewin y Fro. Yn y cyfnod interim, nodwyd y tir ar gyfer llety addas dros dro i ffoaduriaid o Wcráin oedd wedi gorfod ffoi o'u gwlad ac a oedd mewn angen dybryd ar hyn o bryd. Yr oed gan y Cyngor ddyletswydd statudol i'w hail-gartrefu. Dywedodd fod pobl Llanilltud yn hanesyddol wedi estyn croeso cynnes i bobl mewn sefyllfa o'r fath a'i bod yn sicr y buasent eto yn derbyn yr ateb hwn dros dro cyn unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

Yr oedd y Cynghorydd John yn falch o glywed fod Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd Lleol yn gadarnhaol oherwydd bod ar Lanilltud Fawr angen gwell cyfleusterau iechyd fel rhan o ail-lunio gwasanaethau clinigol. Dywedodd fod rhai trigolion wedi mynegi pryder am ba hyd y byddai'r llety dros dro ar y safle, a'i bod yn anodd dweud am ba hyd yn union, ond y gallai fod yn ddwy flynedd. Yr oedd yn sicr y byddai pobl Llanilltud yn croesawu'r Wcrainiaid â breichiau agored.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Wilson at Baragraff 2.1 (g) am Safle Parcio Fflyd Stad Fasnachol Atlantic oedd yn newyddion da am ei fod yn cyfrannu at dargedau Prosiect Sero'r Cyngor am 2030 i leihau swm y teithio fyddai'n digwydd. Cyfeiriodd

hefyd at Baragraff 2.1 (i) am Heol Hayeswood yn y Barri a pha mor falch yr oedd y gallai'r Cyngor ymgymryd â'r prosiect a fyddai, gobeithio, wedi ei gwblhau yn ystod y misoedd nesaf.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at Baragraff 2.1 (f) am Gronfa Prosiect Partneriaeth Adfywio'r Barri, gan ddweud fod Swyddogion ar hyn o bryd yn cael trafodaethau cadarnhaol gyda'r datblygwyr.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD – nodi defnydd y Prif Weithredwr o Bwerau Brys.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu'r Cabinet.

**C187 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2022 (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd hysbysu'r Cabinet o gynnydd ar Raglen Gyfalaf 2022/23 am y cyfnod 1 Ebrill tan 30 Tachwedd, 2022 ac i ofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad, yr oedd y rhaglenni a gymeradwywyd yn dod i gyfanswm o £90.4m oedd yn cynnwys rhai agweddau oedd wedi llithro o flynyddoedd eraill. Petai'r holl geisiadau yn yr adroddiad i newid y Rhaglen Gyfalaf yn cael eu cymeradwyo, yna mae'n debyg y byddai'r canlyniad diwygiedig yn golygu gostyngiad bychan i £88.2m a byddai'r gwariant hyd ddiwedd Tachwedd yn £30.1m. Yr oedd adran newydd yn Atodiad 1 yn rhoi'r diweddaraf am Raglenni Cyfalaf.

Yr oedd y Cynghorydd Wilson wedi ymweld â'r safle ac yn falch iawn o'r cynnydd gyda'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff a'r Siop Ail-ddefnyddio. Yr oedd hefyd wedi ymweld ag Ardal Chwaraeon Aml-Ddefnydd Cwrt y Fil ym Mhenarth gyda'r swyddogion, ac yr oedd y gymuned yn croesawu hyn.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar gyflwyno Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

(2) Cytuno ar y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y'i gosodwyd allan yn yr adroddiad agreed.

(3) Cytuno ar y defnydd o Bwerau Brys fel y manylwyd arnynt yn yr Atodiad a atodwyd.

(4) Cymeradwyo'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod:

- Prydau ysgol am Ddim 2022/23 – Dwyn ymlaen £993k i Raglen Gyfalaf 2023/24
- Ysgol Gynradd EyngNgh St Andrews Major – ail-wynebu'r maes chwarae – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £15k i'w gyllido gan gyfraniad o gyllideb refeniw'r ysgol.
- Cae Pêl-droed Pob Tywydd Ysgol Gynradd Sant Curig – Cynyddu cyllideb y cynllun hwn o £23k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w gyllido gan gyfraniad o gyllideb refeniw'r ysgol.
- Estyniad Ysgol Gynradd Llansannor – Dwyn ymlaen £130k i Raglen Gyfalaf. 2023/24
- Adnewyddu Toiledau Ysgol Gynradd Llansannor– Dwyn ymlaen £60k i Raglen Gyfalaf 2023/24
- Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes– Cyfuno cynllun ailweirio a newidiadau mewnol i Ysgol Gynradd y Wig a Marcroes yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Adnewyddu Toiledau Ysgol Gynradd St Illtyd - Symud £15k o gynllun Pibelli Dŵr Glaw newydd Ysgol Gynradd Gladstone a £20k o gynllun adnewyddu toiledau Ysgol Gynradd Gladstone i gynllun adnewyddu toiledau Ysgol Gynradd St Illtyd yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Cyfnod 2 Gwaith Trwsio Allanol Rhif 91 Heol Salisbury (YOS) – Dwyn ymlaen £15k i Raglen Gyfalaf 2023/24
- Monitro a Gwerthuso'r B4265 Aberddawan i Silstwn a Ffwl-y-mwn – cais i ddileu cyllideb y cynllun hwn o £3k o Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Adeiladwaith Llanmaes– Dwyn ymlaen £540k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adeiladau Gwasanaethau Cymdogaeth am faterion cydymffurfio a chanolfannau cymuned – cais i symud £7k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o gynllun canolfannau cymuned a hamdden y Gwasanaethau Cymdogaeth.
- Adnewyddu Bwyler Canolfan Hamdden Penarth–Symud £5k o'r gyllideb Gwaith Canolfannau Hamdden i'r cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Bwyler Canolfan Hamdden y Barri– Symud £70K i'r gyllideb Gwaith Canolfannau Hamdden yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Cafn Canolfan Hamdden y Barri – Symud £6k o'r gyllideb Gwaith Canolfannau Hamdden i gyllideb y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
- Parc Sglefrio y Knap– Dwyn ymlaen £240k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Larwm Tân yng Nghanolfan Menter Gymunedol Holm View – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £18k, i'w gyllido o'r arian adfywio a chynllunio sydd wrth gefn.
- To a Ffenestri'r Sied Drenau– Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £24k, i'w gyllido o'r arian adfywio a chynllunio sydd wrth gefn.
- Cyllido Cyfalaf Llefydd Lleol i Natur 2022-23 – Cynyddu'r cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn y swm o £17k, i'w gyllido o grant Llywodraeth Cymru.

- Canolfan Gwasanaethau Busnes 2 – Dwyn ymlaen £300k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Partneriaeth Adfywio'r Barri – Dwyn ymlaen £86k i Raglen Gyfalaf 2023/24
- Ardal Adfywio Penarth – Dwyn ymlaen £5k i Raglen Gyfalaf2023/24.
- Grant Adeiladu Cymunedau Cryfach– Man chwarae newydd yn Heol Caerleon, Dinas Powys – Cynyddu'r cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 yn y swm o £72k, i'w gyllido o gyfraniad gan A106.
- Grant Adeiladu Cymunedau Cryfach – Hen Ryd Tregolwyn – Cynyddu'r cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o £20k, i'w gyllido o gyllideb refeniw'r Grant Cymunedau Cryfach.
- Cronfa Adeiladu Cymunedau Cryfach – Gwella cyfarpar chwarae yng Nghae Chwarae Coffa'r Brenin Siôr V– Cynyddu'r cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o £10k, i'w gyllido o gyllideb refeniw'r Grant Cymunedau Cryfach.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf.

(2) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.

(3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Bwerau Brys.

(4) Caniatáu i gynlluniau fynd rhagddynt yn y flwyddyn ariannol hon a rhai i ddod.

**C188 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD 2022 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd yn ymwneud a gwariant refeniw am y cyfnod 1 Ebrill i 30 Tachwedd, 2022.

Yr oedd yr Arweinydd wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid y Senedd am y pwysau oedd yn wynebu cludo plant a phobl ifanc yn ôl ac ymlaen i'r ysgol; nid oedd y pwysau ar gludiant ysgol yn cael eu hateb o fewn y gwasanaeth, ond gellid talu trwy danwario ar bolisi. Yr oedd tanwariant unwaith-am-byth mewn Gwasanaethau Oedolion oherwydd newid yn y ffordd o gyfrifo am incwm a ohiriwyd yn ôl argymhelliad Archwilio Cymru.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at lefel y manylder a roddwyd yn ffigyrau'r adroddiad yn ogystal â lefel y tryloywder am y sefyllfa ariannol bresennol. Diolchodd i'r Swyddogion Cyllid am yr holl waith a aeth i baratoi'r adroddiad, ac ategodd Aelodau eraill y Cabinet hyn.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw'r Awdurdod am 2022/23.

(2) Nodi'r trefniadau i wneud iawn am y gorwario a ragwelwyd yn 2022/23 fel y gosodwyd allan yn yr adroddiad.

(3) Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ddiwygiedig am 2022/23 fel y gosodwyd allan yn Atodiad 1.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan gadw mewn cof y refeniw a ragfynegwyd am 2022/23.

(2) I ymateb i bwysau chwyddiant mewn cyflogau a phrisiau yn 2022/23.

(3) I addasu'r Gyllideb Refeniw ddiwygiedig am 2022/23 i ganiatáu symud rhwng Cyfarwyddiaethau.

**C189 CYLLIDEB 2023/24 AR GYFER YMGYNGHORI A DIWEDDARIAD PELLACH O'R CATC (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd cyflwyno cynigion cychwynnol am y gyllideb i ymgynghori arnynt er mwyn dod â chyllideb gytbwys i'w chymeradwyo ym mis Chwefror.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r adroddiad yn mynd ymlaen i gael ei ystyried ym mhob Pwyllgor Craffu ac y byddai'n destun llawer o ymgynghori a thrafod dros y mis nesaf, cyn dod yn ôl i'r Cabinet ac yna ymlaen i'r Cyngor Llawn i'w ystyried ym mis Mawrth.

Byddai'n rhaid bod wedi cael cynnydd o 45% mewn Treth Cyngor petai'r diffyg cychwynnol o £38m i gael ei dalu o'r Dreth Cyngor yn unig, na ellid ei ystyried yn amlwg, ac yr oedd yr Adroddiad yn dwyn gerbron gynigion cyllideb i'w trafod gyda'r trigolion.

Yr oedd maint y bwlch yn y gyllideb wedi gwella llawer ers ei ystyried ym mis Hydref 2022 o ganlyniad i'r setliad cyllidebol a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr, 2022 ond yr oedd yn dal yn £9.3m. Derbyniodd Bro Morgannwg well setliad na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd ffactorau demograffig: Bro Morgannwg gafodd y trydydd dyraniad uchaf yng Nghymru, ar 8.9% gydag awdurdodau eraill yn amrywio rhwng 5.4% a 9.3%.

Yr oedd rhagdybiaethau blaenorol am Dreth y Cyngor yn Hydref 2022 wedi eu modelu ar 3.9%, ond yr oedd yr adroddiad yn cynnig codiad yn Nhreth y Cyngor o 4.9%. Bwriadwyd talu am y bwlch o £9.3m yn y gyllideb trwy ddefnydd unwaith-am-byth o arian wrth gefn o £3.2m, yn rhannol i leihau'r pwysau fyddai'n deillio o'r

cynnydd disgwyliedig mewn prisiau ynni ond hefyd i leihau pwysau costau digartrefedd yn y tymor canol. Byddid yn arbed £6.1m trwy wahanol fesurau effeithlonrwydd, adolygu gwasanaethau a chynhyrchu incwm. Byddai rhai codiadau yn cael eu pasio ymlaen i ysgolion, ond byddai gofyniad effeithlonrwydd o £2m ar Addysg, i’w bennu ar lefel ysgolion unigol. I amddiffyn y mwyaf bregus mewn cymdeithas, byddid yn buddsoddi £8.4m mewn Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gofynnodd i’r Arweinydd i bawb ymwneud â’r ymgynghoriad ar y cynigion. Bu rhai trigolion eisoes mewn cysylltiad i rannu eu barn, ac yr oedd croeso i bobl gofrestru i siarad yn y gwahanol Bwyllgorau Craffu lle byddai’r mater hefyd yn cael ei drafod, cyn dod yn ôl i’r Cabinet a’r Cyngor Llawn ym Mawrth 2023.

Cyfeiriwyd at un gwelliant bychan fel rhan o Dudalen 2 Atodiad C i’r Adroddiad, lle’r oedd yr Addasiad Cyllideb Ymgynghorydd Cyn-Denantiaeth a TAW yn dangos ‘6’ yn y golofn cyfansymiau, lle dylid darllen ‘26’. Nodwyd hyn a byddai’n cael ei newid.

Gofynnodd yr Arweinydd hefyd am newid y geiriad i Argymhelliad (2) yn yr adroddiad i gyfeirio’r adroddiad a phob Atodiad at bob Pwyllgor Craffu am sylw. Dylid cyfeirio’r sylwadau hyn at Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, gydag unrhyw argymhellion i’w cyfeirio’n ôl i’r Cabinet ar 27 Chwefror, 2023. Cytunwyd i hyn.

Cytunodd y Cabinet hefyd i gynnwys Argymhelliad ychwanegol yn diolch i’r Swyddogion Cyllid ac aelodau’r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth a fu’n rhan o ddatblygu cynigion y gyllideb ers yr haf diwethaf, gan weithio ar y cyd heb silos i ystyried sut orau i symud ymlaen ac wynebu a rheoli graddfa diffyg y gyllideb ar yr un pryd.

Mater i’r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion ac oblygiadau ynddo, a chan nodi’r gwelliant oedd ei angen ar Dudalen 2 i Atodiad C i’r adroddiad, y gwelliant i Argymhelliad (2) a chynnwys Argymhelliad (7) yn ychwanegol,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi’r sefyllfa ariannol a gyfoeswyd.

(2) Cymeradwyo’r rhagdybiaethau cyllido a gwario diwygiedig a’r cynigion am arbedion a chyfeirio’r adroddiad a phob Atodiad at bob Pwyllgor Craffu am sylwadau, a chyfeirio’r sylwadau hyn at Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, gydag unrhyw argymhellion yn i’w cyfeirio’n ôl i’r Cabinet ar 27 Chwefror, 2023.

(3) Cymeradwyo’r arian wrth gefn a ail-luniwyd i gyfatebu’r risgiau mae’r Cyngor yn awr yn wynebu.

(4) Cymeradwyo cyhoeddi'r cynigion am arbedion i'w hymgynghori gyda thrigolion Bro Morgannwg a grwpiau eraill y bydd cyllideb y Cyngor yn effeithio arnynt.

(5) Nodi'r gwaith cynnar sydd ei angen i sicrhau bod yr holl arbedion yn cael eu cyflwyno'n llawn am 2023/24.

(6) Defnyddio'r drefn o benderfyniadau brys fel sydd wedi ei osod allan yn Adran 15.14 Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn dechrau ar yr ymgynghoriad yn ddi-oed.

(7) Fod y Cabinet yn cyfleu eu diolch i'r Swyddogion Cyllid ac aelodau'r Uwch-Dîm Arweinyddiaeth a fu'n rhan o ddatblygu cynigion y gyllideb ers yr haf diwethaf, gan weithio ar y cyd heb silos i ystyried sut orau i symud ymlaen ac wynebu a rheoli graddfa diffyg y gyllideb ar yr un pryd.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Yr oedd yn bwysig i'r Cabinet gael gwybod yn rheolaidd am sefyllfa ariannol tymor-canol y Cyngor.

(2) Yr oedd craffu yn rhan hanfodol o'r broses o osod cyllideb ac yr oedd yn bwysig dilysu'r rhagdybiaethau cyllido ac arbedion, a bod y cynigion am arbedion yn realistig a bod modd eu cyflwyno, ac na fuasent yn cael unrhyw effeithiau anfwriadol.

(3) Yr oedd adolygu'r arian wrth gefn yn un o sylfeini'r Strategaeth Ariannol.

(4) Sicrhau bod y cynigion am arbedion wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y gyllideb flynyddol.

(5) Sicrhau y gellir cyflwyno'r holl arbedion yn llawn am 2023/24.

(6) I ganiatáu i'r ymgynghoriad gychwyn yn ddi-oed.

(7) Diolch i'r Swyddogion am baratoi'r cynigion i'w hystyried.

**C190 CYNGOR BRO MORGANNWG – FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER 2023/2024 (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd cynnig newidiadau mewn taliadau gwasanaeth am swyddogaethau a reolir gan y Cyngor yn y cyfarwyddiaethau isod am y flwyddyn ariannol 2023/24:

- Amgylchedd a Thai
- Rheolwr-Gyfarwyddwr
- Adnoddau Corfforaethol
- Dysgu a Sgiliau
- Lle

- Gwasanaethau Cymdeithasol

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn amlwg fel rhan o'r trafodaethau ar y gyllideb refeniw pa mor bwysig oedd cynhyrchu incwm er mwyn gallu cyflwyno cyllideb gytbwys. Cymhwyswyd rhai o egwyddorion sylfaenol tegwch wrth ystyried y ffioedd a'r taliadau, ac ystyried ar yr un pryd bwysau chwyddiant. O ran gwasanaethau anstatudol, byddid yn ystyried y rhai a allai, os yn bosib, fod yn niwtral o ran cost yn awr neu yn y dyfodol.

Yr oedd costau gwasanaethau wedi eu meincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill a darpariaeth gwasanaethau cysylltiedig er mwyn gallu cymharu, gyda rhai gwasanaethau wedi eu talgrynnu i'r 5c neu'r 10c agosaf.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai adroddiad ar wahân i'r Cabinet am feysydd parcio, oherwydd bod nifer o nodau strategol yn agwedd y Cyngor at barcio ceir yr oedd angen eu hystyried, er enghraifft, taliadau fesul rheng.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r cynigion am newidiadau i ffioedd a thaliadau a'r newidiadau polisi a phroses cysylltiedig a osodwyd allan yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at bob Pwyllgor Craffu am sylwadau a chyfeirio'r sylwadau hynny at Berfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol.

(3) Yn unol â Phenderfyniad (2), fod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn cyfeirio sylwadau i'r Cabinet i'w hystyried fel rhan o osod y ffioedd a'r taliadau terfynol yn y cyfarfod ar 27 Chwefror, 2023.

(4) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai trwy ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet perthnasol, i gytuno ar a gosod unrhyw daliadau newydd neu newid gwerth taliadau presennol i'r Gyfarwyddiaeth a all godi yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24.

(5) Rhoi awdurdod dirprwyedig i osod ffioedd Cofrestryddion i'r Swyddog Gweithredol (Gwasanaethau Democrataidd) fel y Swyddog Priodol am Wasanaeth Cofrestru'r Cyngor, trwy ymgynghori a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau.

(6) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol trwy ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid/ Swyddog Adran 151 a'r Aelod Cabinet perthnasol, i gytuno ar a gosod unrhyw daliadau newydd neu newid gwerth

taliadau presennol am y Gwasanaeth Teleofal yn dilyn yr adolygiad oedd ar y gweill ar hyn o bryd.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Gan gadw mewn cof y ffioedd a'r taliadau arfaethedig am 2023/24.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol a Pherfformiad yn ystyried sylwadau Pwyllgorau Craffu eraill.

(3) Galluogi'r Cabinet i ystyried barn y Pwyllgor Craffu wrth ddod i benderfyniad ar y materion.

(4) Fel bod modd cyflwyno taliadau newydd mor fuan ag sydd modd am unrhyw wasanaethau newydd a ddarperir gan y Cyngor.

(5) Sicrhau bod modd gosod ffioedd priodol am y blynyddoedd i ddod i'r gwasanaeth Cofrestryddion.

(6) Galluogi gweithredu'r newidiadau i'r system Teleofal yn amserol manner.

**C191 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF DRAFFT 2023/24 I 2027/28 (AG/PA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd gosod allan y cynigion drafft i Aelodau Cabinet eu hystyried, cyn ymgynghori, am y gyllideb gyfalaf derfynol am y blynyddoedd ariannol 2023/24 hyd at 2027/28.

Gofynnodd yr Arweinydd i bobl gyfrannu at yr ymgynghoriad fel rhan o ystyriaeth craffu ar yr adroddiad neu trwy gysylltu â'r Aelod lleol dros eu ward.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cytuno ar y drafft o Raglen Gyfalaf am 2023/24 hyd at 2027/28 a'i chyflwyno i ymgynghori gyda phob Pwyllgor Craffu.

(2) Pasio unrhyw argymhellion gan bob Pwyllgor Craffu at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol er mwyn anfon eu barn ymlaen at y Cabinet.

(3) Cymeradwyo ail-broffilio Clwstwr Penarth Band B – Adolygu Darpariaeth Gynradd i gynnwys cynllun Cosmeston yn ôl y manylion ym mharagraff 2.31 yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo ail-broffilio’r Ystafelloedd Newid, cyfleusterau ategol a chlwb bocsio newydd yng nghynllun maes chwarae Buttrills yn ôl y manylion ym mharagraff 2.32 yr adroddiad.

(5) Cymeradwyo ail-broffilio’r Rhaglen Gwella Tai am y blynyddoedd 2023/24 i 2027/28 fel y gwelir ym mharagraff 2.39 yr adroddiad.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I ymgynghori â’r Aelodau am y Rhaglen Gyfalaf am 2023/24 hyd at 2027/28.

(2) I roi gwybod i’r Cabinet am sylwadau’r Pwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig am y Rhaglen Gyfalaf.

(3) Adlewyrchu’r rhaglen waith ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

(4) Adlewyrchu’r rhaglen waith ar gyfer yr ystafelloedd newid, cyfleusterau ategol a chlwb bocsio newydd yng nghynllun maes chwarae Buttrills.

(5) Adlewyrchu’r rhaglen waith ar gyfer Cynlluniau Gwella Tai.

**C192 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 2 2022/23 (AG/PA) (CRAFFU – I GYD) -**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad; ei bwrpas oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 2 am y cyfnod 1 Ebrill, 2022 hyd at 30 Medi, 2022 o ran cyflwyno ymrwymiadau Pwyllgor Cyflwyno Blynyddol y Cyngor am 2022/23 fel y’u hasiwyd gydag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Mater i’r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i’r Cabinet ystyried yr adroddiad a’r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflwyno ymrwymiadau Pwyllgor Cyflwyno Blynyddol y Cyngor am 2022/23 fel y’u hasiwyd gydag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y’u cyflwynwyd yn yr adroddiad a’r Atodiadau.

(2) Cytuno ar farn ac argymhellion y Pwyllgorau Craffu yng nghyswllt perfformiad Chwarter 2 a chamau unioni a nodwyd ac a gymeradwywyd fel sail i ymdrin â meysydd lle mae tanberfformio a delio â’r heriau allweddol a nodwyd.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflwyno Blynyddol 2022/23 sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i gwrdd â gofynion perfformiad y Cyngor fel y'i hamlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac i adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wneud y mwyaf o'i gyfraniad i gyrraedd y nodau llesiant am Gymru.

**C193 PECYN CYMORTH CYNHWYSIANT TRAWSRYWIOL DRAFFT A DOGFEN GANLLAW AR GYFER YSGOLION A LLEOLIADAU ERAILL (ACG) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd hysbysu'r Cabinet o'r adolygiad a'r ymgynghoriad arfaethedig ar Becyn Cymorth Trawsrywedd diwygiedig Cyngor Bro Morgannwg i ysgolion.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Cyngor wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac i warchod pawb â nodweddion gwarchodedig, ac anogodd bobl i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r adroddiad, y drafft o Becyn Cymorth a Dogfen Ganllaw Trawsrywedd a Chynhwysiant diwygiedig i Ysgolion a Lleoliadau Eraill (Atodiad A) a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb (Atodiad B).

(2) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr of Dysgu a Sgiliau i gynnal ymgynghoriad o 23 Ionawr, 2023 tan 24 Chwefror, 2023 ar y Pecyn Cymorth a Dogfen Ganllaw Trawsrywedd a Chynhwysiant diwygiedig i Ysgolion a Lleoliadau Eraill fel y'i disgrifir yng nghorff yr adroddiad.

(3) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried fel rhan o'r ymarferiad ymgynghori arfaethedig.

(4) Fod y Cabinet yn derbyn adroddiad pellach am gasgliad a gwerthuso'r ymarferiad ymgynghori a chyfoesiadau i'r Pecyn Cymorth a/neu y Canllaw.

(5) Awdurdodi'r defnydd o baragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (trefn penderfyniadau brys) er mwyn caniatáu i'r ymgynghoriad gychwyn ar 23 Ionawr, 2023.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Sicrhau bod y Cabinet yn gwybod yn llawn am gynnwys yr adroddiad a Phecyn Cymorth a Dogfen Ganllaw Trawsrywedd a Chynhwysiant diwygiedig Bro Morgannwg i Ysgolion a Lleoliadau Eraill a dogfennau perthnasol.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o farn ac ymateb y sawl yr ymgynghorwyd â hwy wrth benderfynu cymeradwyo neu beidio Becyn Cymorth a Dogfen Ganllaw Trawsrywedd a Chynhwysiant diwygiedig y Cyngor i Ysgolion a Lleoliadau Eraill.

(3) Sicrhau yr ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau am y cynnig.

(4) Galluogi'r Cabinet i ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori.

(5) I osgoi oedi diangen cyn cychwyn yr ymgynghoriad.

**C194 ADRODDIAD GWRTHWYNEBIADAU - FFORDD DRYDEN, PENARTH MESURAU ARFAETHEDIG ARAFU TRAFFIG A GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG UNFFORDD (WCA) (CRAFFU – AMGLYCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am wrthwynebiadau a dderbyniwyd ac i gynnig ffordd briodol ymlaen.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Gwrthod y gwrthwynebiadau i'r cynigion am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad a gweithredu'r mesurau arfaethedig i dawelu traffig a'r gorchymyn rheoleiddio traffig unffordd.

(2) Rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr am y penderfyniad hwn.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I ganiatáu gweithredu'r mesur tawelu traffig arfaethedig a'r system unffordd.

(2) I alluogi gwneud y Gorchmynion.

**C195 ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD: RHOOSE WAY Y RHWS – GWAHARDD AROS, LLWYTHO, A DADLWYTHO ARFAETHEDIG AR UNRHYW ADEG A GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO DYDD LLUN I DDYDD GWENER 8AM I 9:30AM A 2:30PM I 4PM GORCHYMYN RHEOLEIDDIO TRAFFIG (WCA) (CRAFFU – AMGLYCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am wrthwynebiadau a dderbyniwyd ac i gynnig ffordd briodol ymlaen.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Gwrthod y gwrthwynebiadau i'r cynigion am y rhesymau a roddir yn yr adroddiad a gweithredu'r gorchymyn rheoleiddio traffig i wahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg, a gwahardd aros, llwytho a dadlwytho o ddydd Llun tan ddydd Gwener 8:00am tan 9:30am a 2:30pm tan 4:00pm ar Ffordd y Rhŵs (Rhan) a Ffordd Greenmeadow (Rhan).

(2) Rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr am y penderfyniad hwn.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) I ganiatáu gwneud a gweithredu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

(2) Cadarnhau safbwynt y Cyngor.

**C196 GWAREDU TIR Y TU CEFN I 42 A 46 FONMON PARK ROAD (WCA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd ceisio caniatâd i waredu llain bychan o dir yng nghefn 42 a 46 Heol Ffwl-y-mwn, Y Rhŵs, ar yr amod y cytunir ar werth gwerthu addas, ynghyd â thelerau ac amodau.

Soniodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wrth Aelodau'r Cabinets am wall yn yr adroddiad oedd angen ei gywiro. Y mae'r adroddiad yn cyfeirio at 42 a 46 Heol Ffwl-y-mwn Road in Y Rhŵs, tra bo teitl yr adroddiad yn cyfeirio at Heol Parc Ffwl-y-mwn, sy'n anghywir. Byddai angen dirprwyo ychwanegol i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd er mwyn egluro mai Heol Ffwl-y-mwn yn hytrach na Heol Parc Ffwl-y-mwn oedd yr ardal dan sylw ac i hyn gael ei wneud trwy ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu er mwyn asesu'r lleiniau cywir o dir. Cytunwyd i hyn.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo a nodi Argymhelliad (6) ychwanegol

PENDERFYNWYD –

(1) Yn amodol ar Benderfyniadau (2)-(5), datgan y tir a nodir yn Atodiad "A" i'r adroddiad yn eiddo dros ben i ofynion y Cyngor, a gwerthu llain i bob un o berchenogion yr eiddo cyfagos, sef perchenogion cofrestredig 42 a 46 Heol Ffwl-y-mwn, Y Rhŵs ar bris y farchnad, yn amodol ar gynnwys cyfamodau i gyfyngu ar ddatblygu pellach ar y tir yn nhelerau'r gwerthiant.

(2) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i hysbysebu'r bwriad i golli dau lain bychan o dir agored (yn unol ag a.123 (2A) Deddf Llywodraeth Leol 1972) y bwriadwyd eu gwerthu i'r trigolion cyfagos.

(3) Awdurdodi'r Pennaeth Cyllid i benodi prisiwr allanol i roi adroddiad am bris y farchnad am y tir y cyfeirir ato yn Atodiad 'A' a chytuno ar Benawdau Telerau am y gwerthiant trwy ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Chludiant.

(4) Adrodd yn ôl i'r Cabinet am unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad man agored cyhoeddus, i'w ystyried cyn unrhyw benderfyniadau terfynol ynghylch gwaredu'r tir.

(5) Pe na bai unrhyw wrthwynebiadau i'r hysbysiad man agored cyhoeddus, awdurdodai'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i gwblhau'r holl ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol i waredu'r tir.

(6) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd esbonio mai Heol Ffwl-y-mwn yn hytrach na Heol Parc Ffwl-y-mwn oedd yr ardal dan sylw, trwy ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Amgylchedd a Thai a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Chludiant er mwyn asesu'r lleiniau cywir o dir.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) I ganiatáu trosglwyddo llain o dir i bob un o feddianwyr yr eiddo cyfagos

(2) Sicrhau yr atebir pob un o rwymedigaethau ymddiriedol a statudol yn y trafodiad trwy sicrhau cydymffurfio ag Adran 123 (2A) Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd bod y tir yn rhan o fan agored.

(3) I ganiatáu gwaredu'r tir ar delerau ac amodau addas.

(4) I sicrhau bod y broses o wneud hysbysiad man agored cyhoeddus wedi ei dilyn yn gywir, ac yr ystyrir unrhyw wrthwynebiadau posib.

(5) Ffurfioli'n gyfreithiol waredu'r tir.

(6) Asesu'r lleiniau cywir o dir.

**C197 NEWIDIADAU I'R GWASANAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF 2023/24 (WCA) (CRAFFU – AMGLYCHEDD AC ADFYWIO) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd ceisio caniatad i adolygu'r ddarpariaeth gwasanaeth ailgylchu a gwastraff presennol i adlewyrchu'r sefyllfa gyllidebol fel y mae a'r heriau am 2023/24 a thu hwnt.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y bu peth dryswch ynghylch y cynigion, a phwysleisiodd na fyddai gostyngiad yn nifer y bagiau duon fyddai'n cael eu casglu, ond y byddai tri bag yr wythnos. Yr oedd yn gobeithio y byddai pobl yn ystyried beth oedd yn cael ei roi allan i'w gasglu, a bod y deunydd cywir yn cael ei roi yn y bagiau, cywir, e.e., peidio â rhoi gwastraff bwyd yn y bagiau duon am fod hynny ar hyn o bryd yn cyfrif am ryw 15% o gynnwys y bagiau duon.

Cadarnhawyd hefyd y gallai trigolion roi gwastraff mewn biniau metel gan y byddai'r rhain yn dal i gael eu gwagio, a bod yr Awdurdod yn ymchwilio i ddichonoldeb casglu ac ailgylchu tecstilau.

Y gwasanaeth safonol am gasglu bagiau gwyrdd fyddai £20 am y flwyddyn gyfredol a byddent yn cael hyd at 4 bag wedi'u casglu bob pythefnos. Byddid yn codi 50c yn ychwanegol y bag ar ddefnyddwyr trwm y gwasanaeth gwastraff gwyrdd. Gallai trigolion ddal i fynd â gwastraff gwyrdd i'w Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref (CAGC) am ddim.

Anogodd y Cynghorydd Wilson drigolion i rannau eu barn mewn Pwyllgor Craffu, cysylltu ag ef fel yr Aelod Cabinet neu gysylltu â'u Haelod ward lleol.

Dywedodd yr Arweinydd mai Bro Morgannwg oedd yr ailgylchydd ail uchaf yng Nghymru, oedd hefyd wedi gosod Bro Morgannwg fel un o'r prif ailgylchwyr ledled y byd o ran casglu a gwaredu.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo tâl tanysgrifio blynyddol am gasglu gwastraff gwyrdd unwaith bob pythefnos rhwng Mawrth a Thachwedd ac ar wasanaeth ffonio a gofyn ar sail y cyntaf i'r felin, rhwng Rhagfyr a Chwefror i danysgrifwyr y gwasanaeth.

(2) Cymeradwyo cyflwyno'r tâl seiliedig ar y gwasanaeth uchod o 1 Gorffennaf, 2023.

(3) Cymeradwyo casgliadau bag du bob 3 wythnos seiliedig ar 3 bag i bob aelwyd, o 1 Gorffennaf, 2023.

(4) Cyfoesi'r Polisi Gwastraff Gweddilliol i adlewyrchu'r newidiadau y manylir amdanynt yn yr adroddiad.

(5) Cyfeirio Penderfyniadau (1), (2), (3) a (4) uchod at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i'w hystyried.

(6) Cymeradwyo'r newidiadau i'r gwasanaeth ym Mhenderfyniadau (1), (2), (3) a (4) os na fynegir unrhyw farn i'r gwrthwyneb gan y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I sicrhau y darperir gwasanaethau gwastraff o fewn y gyllideb a bod effeithlonrwydd y gwasanaeth a heriau'r gyllideb yn cael eu cwrdd.

(2) Darparu incwm ar gyfer gwasanaethau anstatudol i gwrdd â'r heriau ariannol digynsail.

(3) I ostwng costau cyflwyno gwasanaeth gwastraff gweddilliol, cynyddu perfformiad trwy ddal y deunydd ailgylchu sydd yn dal mewn bagiau duon a gostwng ôl troed carbon y Cyngor trwy gyfrannu'n gadarnhaol at Brosiect Sero a Chymru garbon niwtral erbyn 2030.

(4) I sicrhau bod cyfyngiadau gwastraff gweddilliol yn cael eu rheoli a'u cyfleu yn briodol ac y rhoddir ystyriaeth i aelwydydd lle bo angen.

(5) Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ystyried manylion yr adroddiad.

(6) Cynorthwyo i alluogi'r maes gwasanaeth i baratoi ar gyfer gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r gwasanaeth mor fuan ag sydd modd.

**C198 STRATEGAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF (2022-2032) (WCA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd ceisio'r awdurdod i gymeradwyo'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff newydd (2022-2032).

Diolchodd i aelodau'r cyhoedd a gymerodd yr amser i wneud sylwadau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus 12-wythnos.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus (cyfeirir ato yn Atodiad A) yng nghyswllt y drafft o Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032).

(2) Nodi'r Cynllun Gweithredu Rheoli sydd yn Atodiad A, a grëwyd mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried a'u gwneud yn rhan o'r Strategaeth.

(3) Newid y drafft o Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032) i adlewyrchu penderfyniad y Cabinet, yng nghyswllt yr Adroddiad Arbedion a Newidiadau i'r Gwasanaeth Gwastraff, a ystyriwyd yn gynharach ar yr agenda.

(4) Nodi'r cynnydd gyda seilwaith newydd a'r hyn sydd yno eisoes, sef y cyfoesiadau am adeiladu'r Cyfleuster Adfer , y siop ailddefnyddio newydd, y cynnig am barcio'r fflyd, a'r CAGC newydd yn Llandŵ.

(5) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried.

(6) Cymeradwyo'r drafft o Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022–2032) os na fyddai unrhyw welliannau strategol yn cael eu hargymell gan y Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio i'r Cabinet eu hystyried.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan gadw mewn cof farn y cyhoedd yng nghyswllt y drafft o Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff (2022-2032).

(2) I sicrhau bod sylwadau aelodau'r cyhoedd yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn y Strategaeth

(3) I sicrhau bod gwasanaethau gwastraff yn cael eu darparu o fewn y gyllideb a bod effeithlonrwydd y gwasanaeth a heriau'r gyllideb yn cael eu cwrdd.

(4) Nodi'r cynnydd ar seilwaith a datblygiadau yn y gwasanaeth.

(5) Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Craffu Amgylchedd ac Adfywio ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus.

(6) I sicrhau bod gan y Cyngor gynllun strategol wedi ei ddiffinio ac a fu'n destun ymgynghoriad i gyrraedd ei dargedau ailgylchu strategol, ei uchelgeisiau amgylcheddol, a'i fod yn cydymffurfio a'r ddeddfwriaeth gyfredol ar wastraff.

**C199 ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR (DSCCT) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth o Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr (ALISTh) Bro Morgannwg 2022.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo canfyddiadau Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr, 2022.

(2) Cyfeirio'r adroddiad a'r Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'w ystyried, a chytuno i gyflwyno Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr, 2022 i Lywodraeth Cymru.

(3) Cadarnhau y gall y Cyfarwyddwr Lle anfon llythyr at y teithwyr sydd ar hyn o bryd yn meddiannu'r safle heb awdurdod yn Heol Hayes, Sili, i'w hysbysu, er na fyddid yn cymryd unrhyw gamau gorfodi cynllunio yn eu herbyn parthed eu defnydd preswyl o'r safle, nad oedd unrhyw hawliau ymhlyg i hawlio meddiant andwyol o'r safle.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1-2) I sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ofynion statudol dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a mabwysiadu'r Asesiad Llety i Sipsiwn a Theithwyr, i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

(3) Gwarchod y Cyngor rhag unrhyw hawliadau yn y dyfodol am feddiant andwyol o'r safle anawdurdodedig presennol.

**C200 YMATEB Y CYNGOR I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: PAPUR GWYN GWEINYDDU ETHOLIADOL A DIWYGIO (YGCGR) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad; ei bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r ymateb arfaethedig i bapur ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ar Weinyddiaeth a Diwygio Etholiadol.

Yr oedd y Cyngor yn fras o blaid y 6 egwyddor diwygio etholiadol a ddisgrifir yng Nghwestiwn 1 yn Atodiad A ond yr oedd peth pryder ynghylch y gwyro oddi wrth y Ddeddf Etholiadol yn y DU. Yr oedd Aelodau'r Cabinet yn cefnogi hwyluso cymryd rhan a sefyll mewn etholiadau, a bod angen peth diwygio er mwyn annog pobl i sefyll i gael eu hethol, ond cytunwyd bod yn rhaid cael cynrychiolaeth deg ymysg Aelodau etholedig, e.e., cydbwysedd rhwng y rhywiau, etc. Cafwyd trafodaeth am rôl bwysig asiant, gwneud pleidleisio mor hygyrch ag sydd modd, a chefnogaeth i Aelodau newydd.

Mater i'r Pwyllgor Gweithredol benderfynu oedd hwn.

Wedi i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a'r holl faterion ac oblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

(1) Cyflwyno'r ymateb arfaethedig a atodir i'r adroddiad yn Atodiad A i Lywodraeth Cymru.

(2) Awdurdodi’r defnydd o baragraff 15.14.2(ii) o Gyfansoddiad y Cyngor (trefn penderfyniadau brys) er mwyn caniatáu anfon yr ymateb at Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser estynedig o 23 Ionawr, 2023.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am farn y Cyngor ar y mater, gan gynnwys yn yr Ymgynghoriad.

(2) I gwrdd ag amserlen Llywodraeth Cymru.

**C201 GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD –**

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o’r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

**C202 ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILIO CYMRU: DYSGU O YMOSODIADAU SEIBER (CYF) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFF 18) -**

Cyflwynwyd y cyfeirio o Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 12 Rhagfyr, 2022.

Wedi ystyried y cyfeirio, yna

PENDERFYNWYD –

(1) Datblygu cynllun gweithredu i ymateb i gwestiynau a heriau sydd yn arddangosyddion 2 i 8 o Astudiaeth Genedlaethol Archwilio Cymru: Dysgu o Ymosodiadau Seibr.

(2) Nodi sylwadau’r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.

Rheswm dros benderfyniadau

(1-2) Gan gadw mewn cof gynnwys y cyfeirio a thrafodaethau yn y cyfarfod.